Y SENEDD - CYFARFOD ARBENNIG

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 20 MAI 2019, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais:	Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Gordon Allison; Dr Guy Baron; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Mr Nigel Hardy; Ms Megan Hatfield, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; Dr Ffion Jones, Dr Louise Marshall; Mr John Morgan; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Dr Victoria Wright; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.
Aelodau heb bleidlais:	Dr Sarah Davies; Yr Athro Andrew Evans; Dr Thomas Jansen; a Dr Anoush Simon.
Yn gweinyddu:	Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Dr Cathryn Charnell-White; Yr Athro Colin McInnes, Cyfarwyddwr Ymchwil, Effaith a Rhagoriaeth; Yr Athro Milja Kurki; Dr Gareth Norris; a Ms Hannah Payne, Rheolwr y FFRHY a Monitro Ymchwil.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Yr Athro Richard Beardsworth; Mr Tim Davies; Yr Athro Iain Donnison; Dr Sarah Higgins; Yr Athro Nigel Holt; Ms Louise Jagger; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi).

43. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Roedd nifer o unigolion yn bresennol yn lle prif gynrychiolwyr eu hadrannau academaidd, naill ai yn aelodau a etholwyd wrth gefn, neu'n sylwedyddion ar gais y Pennaeth Adran perthnasol. Croesawyd pob un i'r Cyfarfod Arbennig o'r Senedd.

44. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

45. FFRHY 2021: COD YMARFER

DERBYNIWYD

Cod Ymarfer drafft y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FFRHY) 2021 (SEN1819-061).

NODWYD

1. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gytuno ar God Ymarfer ar gyfer FFRHY2021 a'i gyflwyno i'r Tîm FFRHY yn Research England erbyn 07 Mehefin 2019. Gan na fyddai'r Senedd yn cyfarfod nesaf tan 12 Mehefin, cafodd y Cyfarfod Arbennig hwn ei gynnull er mwyn i'r corff llywodraethu academaidd ystyried a rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r Cod Ymarfer cyn y dyddiad cau ar gyfer ei gyflwyno.

2. Er bod drafft cychwynnol y Cod Ymarfer wedi'i rannu â'r Senedd y llynedd, cafodd cyfarwyddyd manylach ei gyflwyno gan y cynghorau cyllido ers hynny. Roedd fersiwn

gyfredol Cod Ymarfer arfaethedig y Brifysgol felly wedi'i seilio ar y cyfarwyddyd hwn er mwyn cyflawni gofynion y cynghorau ymchwil yn y dull gorau (

3. Penododd y Senedd dri o'i haelodau etholedig - un o bob Cyfadran - i gynghori'r grŵp a oedd yn gyfrifol am ddatblygu drafft y Cod Ymarfer. Cynrychiolwyr y Senedd a fu'n gweithio ar elfen hon y broses oedd: Dr Gordon Allison (Cyfadran y Gwyddorau Daear a Bywyd); Dr Ola Olusanya (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol), a Dr Maria Plotnikova (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol).

4. Roedd y Cod Ymarfer arfaethedig yn cynnwys pump o brif adrannau, a drafodwyd yn fanwl yn eu tro gan aelodau'r Senedd. Sef:

    1. Adnabod Ymchwilwyr Annibynnol;

    2. Adnabod Staff sydd â Chyfrifoldeb Sylweddol am Ymchwil;

    3. Dewis cynnyrch i'w gyflwyno i FFRHY2021;

    4. Cefnogi staff sydd ag Amgylchiadau Unigol; a

    5. Y Panel Amgylchiadau Annibynnol.

5. Yn ystod y trafodaethau cysylltiedig, pwysleisiwyd y canlynol:

    1. Tybir y byddai'r holl staff ar gontractau ymchwil, neu addysgu ac ymchwil, yn cael eu cyflwyno yn FFRHY2021, oni bai eu bod yn cyflwyno achos i Grŵp Cyflwyniadau'r FFRHY i gael eu heithrio.

    2. Y Grŵp Cyflwyniadau fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â pha Uned Asesu y byddai unigolion yn cael eu cyflwyno iddo. Gall unigolion fod yn aelod o un Uned Asesu, ond gallant hefyd gael eu croesgyfeirio i Uned Asesu arall.

    3. Cydnabuwyd y byddai nifer o resymau pam y byddai gan rai unigolion llai o gynhyrchion ymchwil i'w cyflwyno nag eraill. Cynlluniwyd y Cod Ymarfer i roi'r Brifysgol mewn sefyllfa i greu'r cyflwyniad FFRHY gorau posibl, ac oherwydd hynny y byddai rhai unigolion yn cyflwyno mwy nag eraill i 'bwll cynnyrch' yr Unedau Asesu. Cadarnhawyd na fyddai nifer yr eitemau a gyflwynwyd i'r FFRHY yn effeithio ar sefyllfa unigolion yn y Brifysgol.

    4. Nad y Pennaeth Adran o angenrheidrwydd fydd rheolwr llinell unigolyn, a dim ond 'anghenion' unigolyn ac unrhyw gefnogaeth angenrheidiol y dylai'r Pennaeth Adran, neu un a enwebwyd ganddo/ganddi, fod yn ymwybodol ohonynt, ac nid 'amgylchiadau' penodol.

    5. Dim ond ar sail y broses y gellid gwneud apêl, ac nid ar sail anghytundeb ynglŷn â'r penderfyniad a wneir. Byddai unigolion yn gallu cyflwyno unrhyw apêl a phe dymunent gellid ystyried yr apêl trwy gyfrwng y Gymraeg.

    6. Cafodd y Grŵp Ymgynghorol Arbenigol ei roi at ei gilydd o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn galwad gynharach am fynegiannau o ddiddordeb. Mynegodd yr aelodau siom yn niffyg amrywiaeth yr aelodaeth arfaethedig.

PENDERFYNWYD

6. Y dylai'r cynhyrchion a ddewisir i'w cyflwyno i FFRHY2021 gael eu gwahanu'n llwyr o'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol, dyrchafiadau academaidd, galluoedd a phrosesau eraill.

7. Y dylai cynhyrchion cyn aelodau o staff yn ystod eu cyfnod yn gyflogedig yn y Brifysgol fod ar dir i'w cynnwys yng nghyflwyniad y Brifysgol.

8. Y dylid galw eto am unigolion i wasanaethu ar y Grŵp Ymgynghorol Arbenigol, gyda chais arbennig am fynegiant o ddiddordeb o blith grwpiau a dangynrychiolir (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ymchwil, Effaith a Rhagoriaeth; a'r Rheolwr FFRHY a Monitro Ymchwil).

9. Y dylai drafft y Cod Ymarfer gael ei gyflwyno i'r Tîm FFRHY yn Research England, yn amodol ar y newidiadau sy'n angenrheidiol i adlewyrchu'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn y Cyfarfod Arbennig hwn o'r Senedd, ac unrhyw fân newidiadau eraill a nodwyd (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ymchwil, Effaith a Rhagoriaeth; a'r Rheolwr FFRHY a Monitro Ymchwil).